

## Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion

### Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed Fai 2014

Presennol - Helen Ellis Cadeirydd, Alun Jones, Hefin Edwards, Menai Hughes, Einion Edwards, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau John D Jones, Guto G Jones, Prys Ellis, Iwan Price., Peter Lewis.

Datgan diddordeb, Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

#### Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd

Penderfynwyd gohirio'r mater hyd nes y cyfarfod nesaf.

Cofnodion, Cadarnhawyd y cofnodion a gynhaliwyd ar y 24ain Fawrth 2014

Materion yn Codi

#### [1] Dyfodol y Llyfrgell

Nodwyd bod trafodaethau yn parhau ynglŷn â dyfodol y llyfrgell.

##### [1.1] Yr Heddlu

Croesawyd Amie Clayton o Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod a chafwyd trafodaeth gyffredinol ynglŷn â materion lleol. Mynegwyd pryder bod moduron yn gyrru i fynu ac i lawr y pentref. Cytunodd i gadw llygad ar y sefyllfa.

##### [1.2] Cysgodfa Bws/Uwch y Llan

Eglurodd y Cyng. Peter Lewis ei fod yn parhau i ddisgwyl adroddiad peiriannydd annibynnol ynglŷn â llawr y gysgodfa.

##### [1.3] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Dywedodd y clerc iddo dderbyn cadarnhad gan Gyngor BS Conwy bod arian ar gael i wneud gwelliannau i'r llwybr.

##### [1.4] Mr Glyn Hughes 7 Cae Llwyd

Eglurodd y clerc nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan Mr Hughes. Penderfynwyd felly fod y mater ynglŷn â gwerthu rhan fechan o Gae Llwyd i Mr Hughes ar gyfer codi garej, wedi dod i ben.

##### [1.5] Ms Heidi Dobbs/Trefnu ar gyfer Argyfwng

Dywedodd y clerc ei fod yn disgwyl gair oddiwrth Ms Dobbs ynglŷn â threfnu cyfarfod.

##### [1.6] Cae Chwarae Ty'n y Felin/ Gosod Goliau

Dywedodd y clerc bod addewid gan y Cyngor Sir i ddanfôn y goliau yn y dyfodol agos.

##### [1.7] Pant Blaidd Ffordd Cwmpenanner/ Creu lle i foduron fynd heibio

Deallwyd bod y Cyngor Sir yn disgwyl gair gan y Bwrdd Dwr ynglŷn â'r mater.

[8] London House/Croesi'r Ffordd

Dyweddod y clerc iddo fod mewn cysylltiad â Mr Ifor Jones [perchenog London House] a'i fod yn awyddus i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod ynglŷn â diogelwch y cyhoedd ger y lleoliad.

[1.9] Goleuadau/Maes y Ffynnon

Nodwyd yn siomedig iawn nad oedd goleuadau wedi eu gosod. Penderfynwyd trafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf.

Y brif agenda

[2] Gwefan y Cyngor Cymuned

Croesawyd Mr Nick Ferguson i'r cyfarfod, a chafwyd amlinelliad ganddo ynglŷn ar gwaith a oedd wedi ei wneud ar gyfer creu gwefan i'r Cyngor Cymuned. Dywedodd fod y wefan ar gael ar y we fel a ganlyn, [www.cerrigydrudion.org.uk](http://www.cerrigydrudion.org.uk)  
Cytunodd pawb i gael golwg ac i anfon unrhyw sylwadau i'r clerc.

[2.1] Materion Cynllunio

Adeiladu ardal lansio cychod a llithrfa. Clwb Hwyllo Llyn Brenig.  
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2.2] Adolygiad Ffiniau Cyngorau Cymuned a Threfniadau Etholiadol /Cynigion Terfynol

Cyfeiriodd y clerc at adroddiad y Cyngor Sir yn amlinellu fel a ganlyn;

- [a] Bod nifer y cynghorwyr yn lleihau o 10 i 9
- [b] Bod y gymuned yn aros heb ei wardio
- [c] Bod y ffiniau yn aros yr un fath

[2.3] Croesawu'r Urdd i Eisteddfod Bala

Cafwyd awgrym y dylai'r ardal drefnu i groesawu 'r eisteddfod i Bala. Y clerc i gysylltu gyda Mrs Ffuon Williams Tai'n y Foel.

[2.4] Cais am Gyfraniad

Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn

- [a] Cymdeithas Rhieni ac Athrawon £150.00
- [b] Ysgol Cerrig-y-Drudion £150.00

Cadeirydd\_\_\_\_\_